❖ Brenhinoedd o'r Dwyrain

Ni, dri doeth o'r Dwyrain dir,
Gyda rhoddion teithiwn yn hir
Faes a gweunydd, ffrwd a mynydd,
Gan ddilyn seren glir.

Cytgan – *O! seren hynod, seren nos,*
Seren sy'n frenhinol dlos,
Cawn dy ddilyn i'r Gorllewin,
At y Gwir Oleuni, dos.

Melchior:
Ganwyd Crist ym Methl'em i ni,
Dygaf aur i'w goron o fri, –
Fyth yn Arglwydd yn dragywydd,
Brenin ein bywyd ni. *Cytgan*

Caspar:
Rhoddaf thus yn offrwm byw,
Tarth y sanctaidd Dduwdod yw;
Gweddi, moliant, pawb a ganant
Wrth ei addoli'n Dduw. *Cytgan*

Balthasar:
Cymer fyrr; ei arogl sur
Dd'wed am fywyd llawn o gur,
Tristwch garw, gwaedu, marw,
Caethwied bedd mewn mur. *Cytgan*

Cododd i'w Ogoniant o'r byd, –
Brenin, Duw ac Aberth mor ddrud.
'Haleliwia' medd y nefoedd,
'Haleliwia' medd byd. *Cytgan*

J. Henry Hopkins, cyf. Carey Jones